



CYSYLLTU Â SEFYDLIADAU SY'N CEFNOGI GOFALWYR IFANC

**Ffeithlen ar gyfer athrawon a staff ysgolion a
cholegau yng Nghymru**



CYFLWYNIAD

Mae athrawon ac aelodau eraill o staff ysgolion a cholegau mewn sefyllfa allweddol i nodi gofalwyr ifanc, i'w cefnogi nhw yn yr amgylchedd dysgu a, lle bo'n briodol, i'w cyfeirio at wasanaethau eraill.

Mae cyswllt aml a rheolaidd staff â gofalwyr ifanc yn eu galluogi nhw i weld effaith gofalu ar eu datblygiad, eu llesiant a'u gallu i ymdopi. Gellir rhannu'r wybodaeth hon â gwasanaethau eraill i helpu'r person ifanc, er ei bod hi'n bwysig sicrhau bod cydsyniad priodol wedi'i gael cyn rhannu gwybodaeth, yn unol â pholisïau'ch ysgol neu goleg ar rannu gwybodaeth.

OS MAI'R YSGOL NEU GOLEG YDY'R LLE CYNTAF Y MAE GOFALWR IFANC YN CAEL EI NODI, MAE'N BWYSIG BOD Y SEFYDLIAD YN GWEITHIO GYDA'R GOFALWR IFANC A'I DEULU/EI THEULU I'W CYFEIRIO AT UNRHYW GEFNOGAETH A HELP PERTHNASOL.

Efallai fod gofalwyr ifanc eisoes yn derbyn cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofalwyr ifanc sy'n aml yn cael eu darparu gan y sector gwirfoddol. Pan nodir gofalwr ifanc o fewn cyd-destun ysgol, neu goleg fe allai fod yn ddefnyddiol i staff weithio gyda'r gofalwr ifanc a'i deulu/ei theulu i feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol neu goleg, ei (g) weithiwr cymdeithasol (os oes ganddyn nhw un) a gwasanaethau gofalwyr ifanc, i sicrhau bod pecyn cyfannol o gefnogaeth yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu i'r gofalwr ifanc.



Bu **Adroddiad Thematig diweddar Estyn ar ofalwyr ifanc**¹ yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad argymhell gwell ymgysylltu rhwng ysgolion, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion, gwasanaethau statudol e.e. darpariaeth awdurdod lleol a gwasanaethau'r sector gwirfoddol, i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Mae'r ffeithlen hon yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau allweddol sy'n darparu cefnogaeth i ofalwyr ifanc.

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YR AWDURDOD LLEOL

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn gyfreithiol gyfrifol am ddarparu a threfnu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth (e.e. plant ac oedolion anabl) ac ar gyfer gofalwyr sydd angen cefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae ganddyn nhw hefyd ddyletswyddau statudol o ran diogelu ac amddiffyn plant. Mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol felly'n adnodd allweddol ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd. Maen nhw'n fan cyswllt allweddol ar gyfer teuluoedd ac unigolion sydd eisiau gofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae manylion cyswllt wedi'u rhestru ar ddiwedd y ffeithlen hon.



GWASANAETHAU CEFNOGI GOFALWYR IFANC

Mae yna wasanaeth gofalwyr ifanc yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r awdurdod lleol yn darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol, tra bo Partneriaid Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, YMCA, Gweithredu dros Blant a Barnardo's yn darparu eraill.

Mae gwasanaethau gofalwyr yn amrywio o ran cwmpas a mathau'r gefnogaeth y maen nhw'n ei darparu ac o ran eu ffordd o weithredu. Mae gwasanaethau o bosibl yn cynnwys clybiau gofalwyr ifanc, gweithgareddau, gweithgareddau seibiant, cefnogaeth un-i-un i'r gofalwr ifanc a chefnogaeth i'r teulu.

Mae cyfeirio pobl ifanc at eu gwasanaeth gofalwyr lleol yn golygu bod cefnogaeth a chynngor arbenigol hynod werthfawr ar gael iddyn nhw. Mae cyfeillgarwch a chefnogaeth gofalwyr eraill hefyd o fudd i lawer o ofalwyr ifanc pan maen nhw'n cyfarfod â nhw trwy'r gwasanaeth gofalwyr ifanc.

Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl y bydd angen i ofalwyr ifanc gael asesiad statudol awdurdod lleol o anghenion gofalwyr i gael defnyddio'r gwasanaeth gofalwyr. Mewn ardaloedd eraill, mae'n bosibl y bydd y gwasanaeth gofalwyr lleol yn cwblhau ei asesiad ffurflen ei hun i benderfynu a ydy'r gwasanaeth ar gael i'r gofalwr ai peidio.

Mae rhai gwasanaethau gofalwyr yn ymweld ag ysgolion a cholegau ac yn rhedeg cynlluniau penodol i'w helpu i wella profiadau a deilliannau gofalwyr yn yr ysgol neu goleg. Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl y cyflenwir y rhain ar sail ranbarthol. Mae gwasanaethau gofalwyr ifanc yn gallu bod yn ffynhonnell werthfawr o gyngor ac arbenigedd i ofalwyr ifanc, eu teuluoedd a staff ysgolion/ colegau.



CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDODAU LLEOLA GWYBODAETH A CHYNGOR

Abertawe 01792 636519

Blaenau Gwent 01495 315700

Bro Morgannwg 01446 700111

Caerdydd 02920 234234

Caerffili 0808 100 2500

Castell-nedd Port Talbot 01639 686802

Casnewydd 01633 656656

Ceredigion 01545 574000

Conwy 0300 456 1111

Gwynedd

ardal Llŷn : 01758 704099

ardal Caernarfon : 01286 679099

ardal Bangor : 01248 363240

Eifionydd a Meirionnydd

Gogledd : 01766 510300

De Meirionnydd: 01341 424499

Merthyr Tudful 01685 725000

Pen-y-bont ar Ogwr 01656 642320 /
07989 655512

Powys 01597 827666

Sir Benfro 01437 764551

Sir Ddinbych 0300 456 1000

Sir y Fflint 01352 803444

Sir Fynwy 01633 644644

Sir Gaerfyrddin 0300 333 2222

Rhondda Cynon Taf 01443 425003

Torfaen 01495 762200

Wrecsam 01978 292066

Ynys Môn 01248 752736

GWASANAETHAU GOFALWYR IFANC

Caerdydd—Gofalwyr Ifanc YMCA 02920 465250

Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Ceredigion 01437
761330

Conwy - Gofalwyr Ifanc WCD 01597 823800

Gofalwyr Ifanc Blaenau Gwent 08000 32 33 39

**Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Castell-nedd Port
Talbot** 01639 763030

Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint 01352 755422

Gofalwyr Ifanc Gwynedd 01248 364614

Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin
01554 742630

Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Merthyr 01685
725171

Gofalwyr Ifanc Caerffili 01633 615859

Gofalwyr Ifanc Casnewydd 01633 251192

Gofalwyr Ifanc Powys 01597 823800

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf 01443
668839

Gofalwyr Ifanc Sir Fynwy 01495 366993

Gofalwyr Ifanc Sir Benfro 01437 761330

Gofalwyr Ifanc Torfaen 01495 762200

Gofalwyr Ifanc Ynys Môn 01248 364614

Prosiect Gofalwyr Ifanc Abertawe 01792
652032

Prosiect Gofalwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr
01656 658479

Prosiect Gofalwyr Ifanc y Fro 02920 465250

Sir Ddinbych - Gofalwyr Ifanc WCD 01597
823800

Wrecsam - Gofalwyr Ifanc WCD 01597 823800

CYFEIRIADAU



1. Estyn (2019) *Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru* [Cyrchwyd 1 Mai 2020].



CYSWLLT

www.carers.org

wales@carers.org

[@CarersTrustWal](https://www.instagram.com/CarersTrustWal)

[@CarersTrust](https://www.instagram.com/CarersTrust)

Defnyddiwyd modelau yn yr holl luniau llyfrgell. © Ymddiriedolaeth Gofalwyr 2020 Rhif elusen (Cymru a Lloegr) / SCO42870 (yr Alban).

Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr rhif 7697170. Swyddfa gofrestredig: Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Uned 101, 168-180 Stryd Union, Llundain SE1 0LH.